# CANFOD EICH DEWRDER

#WythnosIechydMeddwlPlant

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 3 – 9 2020

www.childrensmentalhealthweek.org.uk

## ANNWYL RIENI A GOFALWYR

## 3-9 CHWEFROR 2020 YW WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

Sefydlwyd yr wythnos gan elusen iechyd meddwl plant, **Place2Be** i ganolbwyntio ar bwysigrwydd iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Thema eleni yw **CANFOD EICH DEWRDER**.

## BETH MAE'N EI OLYGU?

Ceir dewrder o bob math ac mae'n wahanol i bawb. Gall dewrder ymwneud â rhannu pryderon a gofyn am gymorth, rhoi cynnig ar rywbeth newydd neu fentro y tu allan i'ch ffiniau arferol. Gall **CANFOD EICH DEWRDER** adeiladu eich hyder, hunan-barch a gwneud i chi deimlo'n dda amdanoch chi eich hun.

Mae bywyd yn aml yn heriol. Nid yw dewrder yn ymwneud ag ymdopi ar eich pen eich hun neu gelu pethau. Mae'n ymwneud â dod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o ddelio â phethau a all fod yn anodd, gan oresgyn heriau corfforol a meddyliol a gofalu amdanoch chi eich hun.

Mae pawb ohonom yn cael cyfnodau pan mae angen i ni **GANFOD EIN DEWRDER**.

## BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

**Dyma rai ffyrdd syml y gallwch annog eich disgyblion i GANFOD EU DEWRDER.**

1. ***Atgoffwch eich plant fod dewrder yn bodoli mewn nifer o ffurfiau a bod pawb yn wahanol.*** Efallai na fydd yr hyn sy'n ddewr iddynt yn teimlo'n ddewr i rywun arall.
2. ***Siaradwch â'ch plentyn am amser pan rydych chi wedi gorfod CANFOD EICH DEWRDER.*** Efallai ei fod wedi bod yn rhywbeth bach neu fawr.
3. **Rhowch ganmoliaeth i'ch plentyn pan fydd yn Canfod ei Ddewrder.** Efallai ei fod wedi dyfalbarhau i ddysgu sgil newydd neu wedi rhoi cynnig ar rywbeth y tu allan i'w ffiniau arferol sydd wedi cynyddu ei hyder a hunan-barch.
4. **Dangoswch enghreifftiau o ddewrder mewn llyfrau a ffilmiau** i'ch plentyn a siaradwch am sut y bydd rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol o fod yn ddewr yn ei helpu i deimlo'n dda.
5. **Darbwyllwch eich plentyn nad oes dim o'i le gyda pheidio â theimlo'n ddewr** a bod yna amseroedd pan gall fod yn anoddach bod yn ddewr.

**Yn yr elusen iechyd meddwl plant, Place2Be, rydym eisiau i bob plentyn feddwl am sut y gallen nhw ofalu am eu meddyliau.**

**Gadewch i'ch plentyn wybod os nad yw'n sicr am rywbeth, yna dylai siarad ag oedolyn y maen ei ymddiried. Gallai fod yn rhywun yn eich teulu, athro, neu rywun arall yn ei ysgol.**

**Os ydych yn bryderus am iechyd meddwl eich plentyn gallwch siarad â'ch meddyg teulu neu rywun yn ysgol eich plentyn.**

**Gallwch hefyd ddod o hyd i restr o sefydliadau sy'n darparu cymorth a chyngor ar ein gwefan www.place2be.org.uk/contacts**